OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 753 (Cy.103)

Y GYMRAEG, CYMRU

Rheoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy) 2012

Gwnaed - - - - *7 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *9 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 138 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

Buddiannau cofrestradwy

2. Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn pennu buddiannau cofrestradwy deiliaid swydd perthnasol at ddibenion Pennod 1 o Ran 8 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2012

(**1**) 2011 mccc 1.